# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17.07.01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i fynegi pryder y Cynulliad ynghylch bwriad y British National Party i gynnal 'gwyl' yng Nghymru. (WAQ12831)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i atal gostyngiad yr Hawl i Brynu yn cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol newydd. (WAQ12832)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Ymhellach i WAQ11375, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r £600,000 a wariwyd eisoes gan Awdurdod Datblygu Cymru ar y Gwaith Ffyrnasait yn Abercwmboi a gyhoeddwyd ganddo'n ddiweddar. (WAQ12833) **R**